NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Belzutifan i drin tiwmorau sy'n gysylltiedig â chlefyd von Hippel-Lindau

16 Hydref 2024

Mae belzutifan (Welireg) ar gael ystod y cyfnod mynediad a reolir. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer tiwmorau sy'n gysylltiedig â chlefyd von Hippel-Lindau (VHL) mewn oedolion pan fydd triniaethau lleol fel llawdriniaeth yn anaddas neu'n ddiangen.  Mae'r tiwmorau hyn yn cynnwys carsinomâu celloedd arennol, hemangioblastomas y system nerfol ganolog neu diwmorau niwroendocrin pancreatig.

Mae rhagor o dystiolaeth ar belzutifan yn cael ei chasglu. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymell defnyddio belzutifan ar y GIG ac yn diweddaru'r canllawiau. Bydd ar gael drwy fynediad a reolir tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael belzutifan ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- VHL UK/Iwerddon, support@vhl-uk-ireland.org
- Action Kidney Cancer, 0800 121 8721

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9476-2